Uned 3B: Trafod sain

Ynglŷn â'r uned:

- Yn yr uned hon bydd plant yn ymchwilio i syniadau cerddorol a'u datblygu drwy ddefnyddio TGCh a dulliau eraill. Byddant yn defnyddio meddalwedd cerddorol syml, recordwyr tâp ac allweddell i gyfansoddi, casglu a chyfathrebu eu syniadau cerddorol. Byddant yn cadw, diwygio a newid eu gwaith i archwilio amrywiaeth o effeithiau cerddorol a sain, ac yn defnyddio TGCh i greu, trefnu a recordio sain.
- Bydd y plant yn gallu cymhwyso'r hyn maen nhw wedi ei ddysgu yn yr uned hon mewn cerddoriaeth

Ble mae'r uned yn ffitio:

Mae'r uned hon yn cymryd yn ganiataol bod plant:

- yn gallu defnyddio TGCh i ddewis pethau
- yn gyfarwydd â chynrychioliadau graffeg o gerddoriaeth.

Geirfa:

dilyniant | cyfansoddi | brawddeg | arbed | adfer | offeryn | tempo | dynameg | traw |

Adnoddau:

meddalwedd cerdd syml i gyfansoddi cerddoriaeth gydag eiconau i gynrychioli brawddegau cerddorol | allweddell electronig gydag amrediad o seiniau a'r gallu i storio a chwarae dilyniannau | microffon ar gyfrifiadur | CD-ROM o offerynnau cerdd | recordwyr tâp/dyfeisiau recordio | cardiau cerddorol yn dangos lluniau o amrywiaeth o offerynnau cerdd y mae modd dynwared eu seiniau ar allweddell electronig

Disgwyliadau: Erbyn diwedd yr uned hon,

Bydd mwyafrif y plant yn gallu: defnyddio meddalwedd cerdd i ddatblygu a mireinio cyfansoddiad cerddorol

Bydd rhai plant dim ond yn gallu: defnyddio meddalwedd cerdd i greu dilyniant o frawddegau cerddorol

Hefyd bydd rhai plant yn gallu: defnyddio meddalwedd cerdd i ddatblygu a mireinio cyfansoddiad cerddorol a'i addasu o ganlyniad i'w berfformio

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

Amcanion Dysgu Dylai disgyblion ddysgu…	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w Nodi**
Gosod Yr Olygfa • **syniad allweddol:** bod modd defnyddio TGCh i ddewis a rheoli seiniau	• Crëwch set o gardiau cerddorol sydd â lluniau o offerynnau cerdd arnynt y cynrychiolir eu seiniau ar allweddell electronig. • Cyflwynwch y plant i'r seiniau a'u hannog i wrando'n ofalus ar ansawdd y seiniau (timbre) a'u disgrifio gan ddefnyddio geirfa gerddorol a mynegiannol. • Gofynnwch i'r plant gymryd tro i ddethol a chanu'r seiniau cerddorol maen nhw wedi'u dewis ar yr allweddell.	• weld bod modd defnyddio allweddell electronig i ddethol a rheoli seiniau	• **syniad allweddol:** bod modd defnyddio TGCh i ddewis a rheoli seiniau
Tasgau byr wedi'u ffocysu • **syniad allweddol:** bod modd storio seiniau ar CD-ROM • **techneg:** defnyddio TGCh i recordio seiniau	• Trafodwch deuluoedd o offerynnau fel llinynnau, chwyth ac offerynnau taro. Arddangoswch seiniau a nodweddion yr offerynnau hyn gan ddefnyddio offerynnau yn y dosbarth ynghyd â CD-ROM a meddalwedd briodol. • Rhowch gyfle i'r plant chwilio'r CD-ROM drostynt eu hunain. Gofynnwch iddynt ddod o hyd i enghraifft o offeryn o bob teulu ac ysgrifennu'r enw a'r teulu ar gerdyn. Wedyn gofynnwch iddynt ddefnyddio recordydd tâp i recordio sampl sain a brasluno offeryn. Gofynnwch i'r dosbarth greu arddangosiad sy'n cynnwys gwahoddiad i wrando ar deuluoedd o offerynnau ar gasét.	• Llywio CD-ROM neu ddefnyddio meddalwedd briodol i ddod o hyd i offerynnau a'u seiniau. • Ileoli a recordio seiniau	• Bydd plant wedi dysgu sut i chwilio CD-ROM yn Uned 2C 'Dod o hyd i wybodaeth'. Gellir cyfuno'r ddau weithgaredd hyn. • Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi cyfle i gymharu'r ffyrdd gwahanol o recordio a storio seiniau, megis ar dâp neu gyfrifiadur.

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

Amcanion Dysgu Dylai disgyblion ddysgu…	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w Nodi**
Tasgau byr wedi'u ffocysu (Parhad.) • **syniad allweddol:** bod modd defnyddio TGCh i drefnu ac ad-drefnu seiniau • **techneg:** defnyddio eiconau i drefnu brawddegau cerddorol	• Arddangoswch ddarn o feddalwedd cerdd lle mae eicon yn cynrychioli brawddeg gerddorol. Bydd y dosbarth yn trafod pa luniau sydd â brawddegau cerddorol gyda sain hapus/drist, cyflym/araf neu sain sy'n debyg i'r dechrau/canol/diwedd • Gyda'i gilydd, bydd y dosbarth yn dewis cyfres o luniau ac yn creu dilyniant cerddorol. Byddant yn awgrymu geiriau a fydd yn cydweddu â'r alaw. • Ar ôl ymarfer bydd y plant yn perfformio ac yn recordio cân y dosbarth.	• ddeall sut y gellir trefnu ac ad-drefnu brawddegau cerddorol gan ddefnyddio eiconau	• Gall Bwrdd Gwyn Rhyngewithiol fod yn offer defnyddiol ar gyfer y gweithgaredd hwn.
• **syniad allweddol:** bod modd cyfuno seiniau electronig a byw mewn perfformiad	• Gweithiwch gyda'r dosbarth i greu cyfansoddiad cerddorol hwy gan ddefnyddio'r un meddalwedd i greu 'dolen' (sef ailadrodd darn cyfan o gerddoriaeth cynifer o weithiau ag y mae eu hangen). Gofynnwch i grwpiau o blant gymryd tro i ddyfeisio'r rhannau taro. • Gofynnwch i'r dosbarth nodi'r patrwm rhythmig y gellir ei ailadrodd a dyfeisio cyfeiliant taro. Maen nhw'n recordio eu syniadau gan ddefnyddio symbolau ac yn recordio eu perfformiad gan ddefnyddio dyfais addas. • Trafodwch gyda'r plant rai o'r gwahaniaethau rhwng agweddau byw y cyfansoddiad a'r rhai a reolir gan gyfrifiadur.	• gweld rhai o'r gwahaniaethau rhwng seiniau byw a'r rhai a reolir gan gyfrifiadur	• Maent yn gallu defnyddio corff fel offeryn taro neu offerynnau cerdd i dapio'r nodiadau/rhythmau allan yn y brawddegau a ddewiswyd.

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

Amcanion Dysgu Dylai disgyblion ddysgu…	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w Nodi**
Tasg Asesu • defnyddio TGCh i greu, trefnu ac ad-drefnu seiniau	• Dywedwch wrth y dosbarth eu bod nhw'n mynd i arbrofi gyda meddalwedd cerdd a chreu melodïau syml. • Rhannwch y dosbarth yn grwpiau ac anogwch y grwpiau i feddwl am greu awyrgylch yn eu cyfansoddiadau drwy ddethol seiniau a brawddegau priodol. Gofynnwch iddynt feddwl am adeiledd eu cyfansoddiadau drwy ddefnyddio patrwm syml. Gofynnwch iddynt gadw eu cyfansoddiadau a'u cyflwyno i weddill y dosbarth.	• trefnu ac ad-drefnu seiniau drwy drafod eiconau priodol • cadw ac adfer eu cyfansoddiad yn annibynnol	• Meddalwedd sy'n caniatáu i chi recordio seiniau gyda meicroffon a chysylltu'r seiniau hynny â delweddau. Yna gallai'r plant recordio eu brawddegau cerddorol eu hunain i ddelweddau a'u canu yn ôl ar y cyfrifiadur.

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA